# NANTLLE a CHILGWYN

## Astudiaeth o gymeriad



Richard Hayman

ar ran

Cyngor Gwynedd
&
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Mai 2017

Richard Hayman
*buildings historian & archaeologist*
www.richard-hayman.co.uk

**Crynodeb**

Paratowyd astudiaeth o nodweddion treftadaeth adeiledig Nantlle a Chilgwyn yn 2017 i ategu'r enwebiad am statws Safle Treftadaeth Byd i Ddiwydiant Llechi Cymru sydd i'w gyflwyno i Gorff Addysgol, Gwyddonol, a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig (UNESCO). Pentref yn nyffryn Nantlle yn Eryri yw Nantlle, ac mae Cilgwyn yn anheddiad bach ar lethrau'r mynydd cyfagos. Cododd yr aneddiadau hyn i roi cartrefi i chwarelwyr y ddwy chwarel. Cafodd Cilgwyn ei adeiladu o ddiwedd y deunawfed ganrif ymlaen i ddynion Chwarel Cilgwyn, a Nantlle yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, i chwarelwyr Penyrorsedd yn bennaf, oedd yn un o chwareli llechi mwyaf y Gogledd tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae'r adroddiad yn amlinellu hanes y gwaith chwarela yn yr ardal a hanes yr aneddiadau eu hunain. Mae'r astudiaeth nodweddion yn edrych ar y patrwm anheddu a'i berthynas â seilwaith y ffyrdd a pherchnogaeth y tir. Gan hoelio sylw ar dai diwydiannol yn bennaf, ond gan gynnwys adeiladau diwylliannol a chrefyddol hefyd, mae'n trafod dylanwad yr economi lleol, dyheadau diwylliannol, adeiledd y gymdeithas a defnydd deunyddiau adeiladu, bob un ohonynt wedi cyfrannu at gymeriad arbennig treftadaeth adeiledig yr aneddiadau. Tanlinellir amrywiaeth cymeriad hanesyddol y ddau anheddiad drwy nodi ardaloedd sydd â chymeriad gwahanol.

Dangosir bod Nantlle a Chilgwyn yn ddau anheddiad neilltuol a chyferbyniol. Datblygiad digymell gan chwarelwyr oedd Cilgwyn i raddau helaeth, a hynny ar weundir a oedd heb ei amgáu, tra cafodd Nantlle ei gynllunio'n bennaf a'i adeiladu i weithwyr a rheolwyr Chwarel Penyrorsedd. Cododd Cilgwyn o glwstwr anffurfiol o dyddynnod â chaeau bach, ond datblygiad llinol oedd Nantlle ar hyd ffordd dyrpeg. Ceir rhai o'r bythynnod gweithwyr mwyaf di-nod yng Nghilgwyn, o'u cymharu â thai safonol Nantlle. Serch hynny, maen nhw'n rhannu llawer o nodweddion pendant, megis defnyddio deunyddiau adeiladu lleol, sef meini o'r maes i ddechrau ond wedyn blociau llechi gwastraff o'r chwareli. Mae tomennydd gwastraff llechi wedi nesáu at ymylon y ddau bentref, ac eto i gyd mae'r ddau yn sefyll mewn tirlun naturiol, dramatig.

Tynnir y themâu amrywiol at ei gilydd i ddangos bod Nantlle a Chilgwyn wedi cadw cymeriad cryf a neilltuol sy'n deillio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a hynny ar sail cyfuniad unigryw o dopograffi, hanes economaidd a chymdeithasol, a'r adnoddau naturiol lleol y codwyd eu hadeiladau ohonyn nhw. Mae'r adroddiad yn gorffen gydag argymhellion ar ragoriaethau dynodi Ardal Gadwraeth.

**Summary**

A character study of the built heritage of Nantlle and Cilgwyn was prepared in 2017 in support of the Wales Slate World Heritage Nomination to be submitted to the United Nations Educational, Scientific and Cultural Organisation (UNESCO). Nantlle is a village in the Nantlle valley in Snowdonia, while Cilgwyn is a small settlement on the mountain slopes nearby. The settlements emerged to house quarrymen at their respective quarries. Cilgwyn was built from the late-eighteenth century for men at Cilgwyn Quarry, Nantlle in the second half of the nineteenth century, mainly for quarrymen at Penyrorsedd, which was one of the largest slate quarries in North Wales in the late-nineteenth century.

The report outlines the history of quarrying in the locality and of the settlements themselves. The character study examines the pattern of settlement and its relationship to its existing infrastructure of roads and land ownership. Focussing mainly on industrial housing, but also encompassing cultural and religious buildings, it discusses the influence of the local economy, cultural aspirations, social structure and the use of building materials, all of which have contributed to the special character of the settlements' built heritage. The variety of historic character within the two settlements is highlighted by the identification of separate character areas.

Nantlle and Cilgwyn are shown to be contrasting and distinctive settlements. Cilgwyn was a largely spontaneous development by quarrymen on previously unenclosed moorland, whereas Nantlle was mainly planned and built for workmen and managerial staff at Penyrorsedd Quarry. Whereas Cilgwyn emerged from an informal cluster of smallholdings with small fields, Nantlle was a linear development along a pre-existing turnpike road. Some of the humblest workmen's cottages are to be found in Cilgwyn, compared with housing of high quality in Nantlle. However, they share many defining characteristics, such as the use of local building materials, initially field stones but later slate blocks discarded from the quarries. Slate waste tips have encroached to the edge of both villages, and yet both villages are set in a dramatic natural landscape.

The various themes are drawn together to show that Nantlle and Cilgwyn retain strong and distinctive nineteenth-century character based on their unique combinations of topography, economic and social history, and the local natural resources with which their buildings were constructed. The report concludes with recommendations on the merits of designation of Conservation Area status.

NANTLLE a CHILGWYN
astudiaeth o gymeriad

RICHARD HAYMAN

H Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, 2017

**Cynnwys**

Crynodebau
1 Nod yr astudiaeth ........................................ 1
2 Cyflwyniad ................................................ 1
3 Cefndir Hanesyddol ................................ 3
4 Hanes yr anheddiad ................................ 4
4 Cymeriad yr Adeiladau ................................ 8
4.1 Arddull a manylion adeiladu ........................ 8
4.2 Deunyddiau adeiladu .................................... 12
6 Ardaloedd Cymeriad .................................... 18
6.1 Tai Victoria .................................... 18
6.2 Plas Baladeulyn .................................... 20
6.3 Canol pentref Nantlle ............................ 21
6.4 Glan Rhonwy and Glan Llyfnwy .................. 23
6.5 Tai Nantlle, Barics a Tŷ Mawr .................. 23
6.6 Bryn Deulyn .................................... 25
6.7 Cilgwyn .................................... 25
6 Datganiad Arwyddocâd ............................ 28
8 Argymelliadau .................................... 28
9 Cyfeirnodau ........................................ 33
Atodiad 1: adeiladau rhestredig yn Nantlle a Chilgwyn ......... 34

**Rhestr o'r darluniau**

Ffigwr 1 – Map Lleoliad
Ffigwr 2 Nantlle yn ei gyd-destun tirwedd
Ffigwr 3 Cilgwyn yn ei gyd-destun tirwedd
Ffigwr 4 Manylyn map Degwm Llandwrog, 1840
Ffigwr 5 Manylyn o Gilgwyn ym 1900
Ffigwr 6 Nantlle ym 1889
Ffigwr 7 Capel Baladeulyn
Ffigwr 8 Rhes Victoria ym 1900
Ffigwr 9 Samaria, Cilgwyn
Ffigwr 10 Pen-hafod-las, Cilgwyn
Ffigwr 11 Pen-ffynnon-wen, Cilgwyn
Ffigwr 12 Tai deulawr yng Nghilgwyn
Ffigwr 13 Barics, Nantlle
Ffigwr 14 Tai Penyrorsedd
Ffigwr 15 Capel Cilgwyn
Ffigwr 16 Talcen bwthyn yng Nghilgwyn
Ffigwr 17 To Bryn Tirion, Cilgwyn
Ffigwr 18 Greenland, Cilgwyn
Ffigwr 11 Cyntedd ym Mhen-ffynnon-wen
Ffigwr 20 Corn simdde llechi yng Nghilgwyn

Ffigwr 11 cwt mochyn ym Mhen-ffynnon-wen, Cilgwyn
Ffigwr 22 Tai Penyrorsedd
Ffigwr 23 festri Capel Baladeulyn
Ffigwr 24 Cofeb Rhyfel Penyrorsedd
Ffigwr 25 Ardal Cymeriad y Dirwedd Tai Victoria
Ffigwr 26 Tai Victoria
Ffigwr 27 Tai pâr gyferbyn â Thai Victoria
Ffigwr 28 ardaloedd cymeriad pentref Nantlle
Ffigwr 29 Plas Baladeulyn
Ffigwr 30 Tai Baladeulyn
Ffigwr 31 Yr olygfa o domen y chwarel dros Dai Cinmel
Ffigwr 32 Crawiau
Ffigwr 33 Tŷ Mawr
Ffigwr 34 Tai Nantlle
Ffigwr 35 Bryn Deulyn
Ffigwr 36 Ardal Cymeriad Cilgwyn
Ffigwr 37 Bythynnod a chaeau yng Nghilgwyn
Ffigwr 38 Bythynno a chaeau yng Nghilgwyn
Ffigwr 39 Llwybr rhwng caeau yng Nghilgwyn
Ffigwr 40 Ffin arfaethedig Ardal Gadwraeth Tai Nantlle
Ffigwr 41 Ffin arfaethedig Ardal Gadwraeth canol pentref Nantlle
Ffigwr 42 Ffin arfaethedig Ardal Gadwraeth Tai Victoria
Ffigwr 43 Crawiau i'r de ddwyrain o Dai Victoria
Ffigwr 42 Ffin arfaethedig Ardal Gadwraeth Cilgwyn
Ffigwr 45 Adeiladau rhestredig yn Nantlle
Ffigwr 46 Adeilad rhestredig yng Nghilgwyn

**Cydnabyddiaeth**


Darparwyd y mapio hanesyddol gan RCAHM Cymru, o dan drwydded OS RCPL2/3/58/005. Darparwyd mapio cyfoes gan Gyngor Gwynedd o dan drwydded OS: © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans 100023387 2017.

## 1 Nod yr astudiaeth

Mae cymeriad hanesyddol yn cyfleu hunaniaeth, mae'n creu ymdeimlad o berthyn ac mae'n cyfrannu at ansawdd y llefydd rydym yn byw, yn gweithio ac yn ymweld. Gall hefyd fod yn ased i fywiogrwydd ac adfywiad economaidd. Mae gwarchod a chynnal cymeriad lleol yn effeithiol yn gofyn am sylfaen o dystiolaeth gref sy'n trwytho gweithgarwch adfywio, cadwraeth, cynllunio a dylunio, ac mae'n ategu penderfyniadau a wnelont â chadwraeth, rheoli ac addasu ar gyfer newid.

Mae datblygu astudiaethau cymeriad ar gyfer aneddiadau o gymorth i ddarparu sylfaen o dystiolaeth gref ar gyfer polisïau cynllunio lleol a fydd yn rhoi elfen allweddol o gefnogaeth er mwyn rheoli'r aneddiadau arfaethedig hyn at y dyfodol.

Diben cyntaf yr astudiaeth hon yw darparu tystiolaeth i gefnogi un agwedd o enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru. Nod yr enwebiad yw cyfleu'r gwerth pwysig y mae anheddiadau'n eu chwarae yng ngwerth eithriadol gyffredinol y safle. Mae Nantlle a Chilgwyn ymysg yr anheddiadau a ddetholwyd ar gyfer yr astudiaeth gan eu bod yn meddu ar gymeriad unigryw sy'n datgelu agweddau penodol o ddatblygiad y diwydiant llechi, a'r economi, a'r gymdeithas a'r diwylliant a grëodd.




*Ffigwr 1 Map Lleoliad*

## 2 Cyflwyniad

Pentref bychan yn nyffryn Nantlle yn Eryri yw Nantlle (ffigwr 1). Adeiladwyd y pentref ar hyd ffordd a oedd yn dilyn trywydd y dyffryn ar ochr ogleddol dau lyn naturiol, Llyn Nantlle Uchaf ac Isaf; er bod y llyn isaf, Llyn Nantlle Isaf bellach wedi'i lenwi. Yn gefnlen i hyn tua'r dwyrain, ceir mynyddoedd Eryri, gan gynnwys yr Wyddfa (ffigwr 2). Ar yr ochr ogleddol mae'r tir yn codi'n serth tua Moel Tryfan, a elwir yn ei ehangder de-orllewin yn Fynydd Cilgwyn, ble adeiladwyd anheddiad bychan Cilgwyn. O'r fan hon, mae Môr Iwerddon i'w weld llai na phedair milltir i ffwrdd tua'r gorllewin (ffigwr 3).

Mae naws dopograffig yr anheddiadau'n lled wahanol. Mae Nantlle ar lawr y dyffryn, ond adeiladwyd Cilgwyn ar weundir agored yn wynebu'r de orllewin.



*Ffigwr 2 Saif pentref Nantlle mewn tirwedd o domennydd gwastraff llechi ar y chwith, a mynyddoedd Eryri, gyda'r Wyddfa yn y pellter, dan gwmwl.*



*Ffigwr 3 Adeiladwyd Cilgwyn ar weundir yn wynebu'r dwyrain tuag at Fôr Iwerddon.*

Ceir sawl chwarel rhwng Cilgwyn a Nantlle - yn bennaf Cilgwyn, Cloddfa'r Lôn, Dorothea a Phenyrorsedd - sy'n ymdoddi i dirwedd o domeni gwastraff, adeiladau chwarelyddol a phyllau wedi'u gorlifo. Yn Nantlle a Chilgwyn, mae'r tomennydd gwastraff llechi'n ymestyn cyn belled ag ymyl y pentref.

Y ffordd sy'n rhedeg trwy ganol Nantlle yw ffin Parc Cenedlaethol Eryri. Canlyniad hyn yw bod yr adeiladau ar ochr ddeheuol y ffordd y tu mewn i'r Parc Cenedlaethol a'r chwareli ar yr ochr ogleddol y tu allan iddo. Mae rhan ddwyreiniol y pentref, sy'n cynnwys Tai Victoria ac Ysgol Baladeulyn, y tu mewn i'r Parc Cenedlaethol. Saif Nantlle a Chilgwyn y tu mewn i Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Nantlle.

**3 Datblygiad Hanesyddol**

Cloddiwyd am lechi ar Fynydd Cilgwyn ers amser cynnar, ond nid oedd y gweithgarwch yn ddigon i fod angen tai wedi'u hadeiladu'n arbennig ar gyfer y chwarelwyr hyd nes yn ddiweddarach yn y ddeunawfed ganrif. Erbyn y 1780au roedd 14 pwll chwarel unigol yn cyflogi 128 o 'feistri' (rhai yn ferched) a bechgyn.

Ar ôl 1800 rhoddwyd hawliau mwynol ar log i bartneriaeth dan arweiniad John Evans, daeth y chwareli o dan reolaeth unigol ac erbyn y 1820au cynyddwyd graddfa'r gweithgareddau unwaith eto - bellach defnyddiwyd chwimsi i godi llechi o bwll dwfn. Roedd chwareli Cilgwyn yn segur yn ystod y 1840au pan gyhuddwyd y chwarelwyr o gloddio'n anghyfreithlon am lechi, ond ailagorwyd y chwarel ac erbyn 1882 cyflogwyd 300 o ddynion yno. Am gyfnod byr, cysylltwyd Cilgwyn â chwarel y Braich, ymhellach tua'r gogledd ddwyrain, trwy ffordd haearn bach John Robinson oedd yn weithredol o 1868 hyd tua 1875. Rhedai'r lein fach at ben dwyreiniol y pentref a rhedai llethr rhwng y bythynod i gysylltu'r ffordd haearn bach â Chwarel Talysarn a Rheilffordd Nantlle oedd wedi hen ennill ei blwyf. Roedd yr ugeinfed ganrif yn gyfnod o ddirwasgiad economaidd. Roedd lleihad mewn cynhyrchu a chaeodd Chwarel Cilgwyn ym 1956. Ar ôl i Chwarel Cilgwyn gau, yn niwedd yr ugeinfed ganrif, fe'i defnyddiwyd fel safle tirlenwi, gyda ffordd fynediad wedi'i gwella yn dilyn ffordd haearn bach gynharach. Mae'r domen bellach wedi'i chau a'r safle wedi cael ei thirlunio.


Erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg nid Cilgwyn oedd canolbwynt y diwydiant llechi lleol. Cloddfa'r Lôn oedd y chwarel fawr gyntaf ar lawr Dyffryn Nantlle. Fe'i hagorwyd ym 1808 gan William Turner ac roedd yn cynhyrchu hyd 1892, yn y blynyddoedd diweddaraf roedd yn weithredol ger hen fferm a elwid Penybryn. Roedd gan William Turner fuddion mewn sawl chwarel leol arall. Agorodd Gloddfa Turner ym 1829 gyda'i fab yng nghyfraith, John Morgan. Fe'i cymerwyd drosodd ym 1849 gan gonsortiwm o chwarelwyr, ffermwyr ac entrepreneuriaid lleol ac fe'i gelwid Cwmni Chwarel Dorothea. Cychwynnwyd Chwarel Penyrorsedd gan Turner hefyd tua 1817 ar ochr ogleddol pentref Nantlle, ond prif gyfnod ei ehangiad oedd ar ôl ei gaffaeliad ym 1863 gan W.A. Darbishire.

Yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, Chwareli Dorothea a Phenyrorsedd oedd yn bennaf gyfrifol am gynhyrchu yn lleol ac roedddent ymysg y chwareli llechi mwyaf yng Nghymru. Ym 1863 roedd Chwareli Dorothea a Phenyrorsedd yn cyflogi 400 o ddynion yr un, a Chloddfa'r Lôn yn cyflogi 200. Erbyn 1896, ar ôl i Gloddfa'r Lôn gau, cyflogai Penyrorsedd 627 o ddynion a Dorothea 532 o ddynion. Hwn oedd blwyddyn penllanw'r gyflogaeth pan oedd y mwyafrif o drigolion Nantlle yn cael eu cyflogi yn y diwydiant. Gostyngodd cynhyrchiant yn raddol ym mlynyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif ac ynghynt yn ystod yr ail hanner. Caeodd Dorothea ym 1970 a Phenyrorsedd ym 1997.

**4 Hanes yr anheddle**

Sefydlwyd anheddle yng Nghilgwyn yn chwarter olaf y ddeunawfed ganrif. Fe'i codwyd ar ffurf clytwaith o gaeau a bythynod ar hap ar weundir oedd cyn hyn yn agored. A bod yn fanwl gywir, roedd y rhain yn llechfeddiannau anghyfreithiol o dir comin, dan berchnogaeth y goron, ond nis gwelwyd fel peth dadleuol.

Gwnaed ymgais i amgáu tiroedd uwch Moel Tryfan ym 1826-27 gan yr Arglwydd Niwbwrch, perchennog y tir isel cyffiniol. Gwnaeth bythynwyr Cilgwyn, ac aneddiadau eraill gawsant eu heffeithio, safiad yn erbyn yr amgáu trwy gyfeirio at y bythynod yr oeddent wedi eu hadeiladu deugain mlynedd ynghynt. Dadleuasant fod y gweundir wedi ei 'glirio o gerrig, wedi ei wrteithio, a'i drin fel ei fod yn cynhyrchu tatws, mewn sawl achos, cnydau bychain o ŷd, ac mewn rhai achosion gallasant fforddio cynnal un neu ddwy o fuchod.' Trwy eu hymdrechion, felly, roedd y chwarelwyr wedi ei berchenogi. Yn y diwedd, ymgyrch a drefnwyd gan John Evans, partner arweiniol yn Chwarel Cilgwyn, a enillodd a gwrthododd Senedd San Steffan yr amgáu. Am bris isel iawn roedd hawl gan y bythynwyr i brynu eu daliadau tir ac erbyn 1840 roedd Cilgwyn yn anheddiad o rydd-ddeiliaid.




*Ffigwr 4 Manylion map Degwm Llandwrog, 1840, yn dangos yr anheddle yng Nghilgwyn.*

Mae patrwm yr anheddiad yng Nghilgwyn yn cael ei gyfleu'n dda ym mapiau Degwm plwyfi Llanllyfni, 1839, a Llandwrog, 1840 (ffigwr 4). Maent yn dangos anheddiad arunig ar dir uchel gyda bythynod unigol gwasgaredig mewn caeau bychain, rhwng un a phum erw'n bennaf, ond gyda thyddynod megis Parc, Cae Gwyn a Hafod Las gyda rhwng 12 a 18 erw. Roedd tua hanner y preswylwyr yn berchen ar eu bythynod, â'r gweddill yn rhentu oddi ar

wahanol dirfeddianwyr. Fe'i cysylltwyd â gweddill y byd gan ffordd dros y waun a gysylltai â ffordd ar ochr orllewinol Moel Tryfan ym mhentref Carmel (nad oedd eto'n bodoli ym 1840).

Ni chynyddodd arwynebedd y pentref ar ôl 1840 ond cynyddodd dwyster yr anheddiad o'i fewn. Adeiladwyd tai newydd i gartrefu'r nifer gynyddol o ddynion a gyflogwyd yn y chwarel ac fe'u dengys ar fap Arolwg Ordnans 1889 (ffigwr 5). Mae'r map hefyd yn dangos rhwydwaith o draciau a llwybrau a esblygodd i gysylltu'r amryw fythynod. Mae'n amlwg bod tir ymysg y tyddynod yn cael ei werthu fel lleiniau adeiladu ac fe adeiladwyd cyfresi o dai pâr a rhesi byrion o dai y tu mewn i'r tir amgaeedig oedd yno. O 1842, roedd Capel yr Annibynwyr yno hefyd.

Ar ôl cau'r chwarel, diboblogwyd Cilgwyn. Erbyn blynyddoedd diweddar yr ugeinfed ganrif, roedd nifer o'r bythynod wedi cael eu gadael, ond erys patrwm y caeau a esblygodd yn eu sgil. Claddwyd bythynod eraill y'u gwelir ar fap Degwm 1840 gan y tomeni gwastraff oedd yn dynesu, a disodlwyd eraill gan dai newydd ar yr un safle, gan adael yr hen dŷ i adfeilio neu gael ei ddefnyddio fel adeilad tŷ allan.




*Ffigwr 5 Manylyn o fap Arolwg Ordnans 1900 yn dangos bythynod cyn-1840 (Samaria a Gogerddan), ynghŷd â'r rhesi byrion diweddarach o dai ar frig y llun ar y chwith (Pen-ffynon-wen) a Greenland ar y dde.*

Tra bod Cilgwyn yn anheddiad greddfol, i raddau helaeth, roedd Nantlle'n bentref a gafodd ei gynllunio. Erbyn 1840 prin oedd yr anheddiadau yn Nantlle. Mae cynllyn Degwm o'r dyddiad hwnnw'n dangos ychydig o adeiladau yn unig, gan gynnwys fferm Nantlle (h.y. Tŷ Mawr), a Melin Nantlle. Roedd yr olaf mewn bodolaeth erbyn 1798 pan baratowyd amcangyfrif o'r gost o'i hail-adeiladu. Safai'r adeiladu ar y naill ochr a'r llall o ffordd dyrpag a sefydlwyd yn y 1820au. Mae'r ffordd yn dilyn trywydd o'r dwyrain i'r gorllewin ar ochr ogleddol Llyn Nantlle Uchaf, o Ryd-ddu ar droed yr Wyddfa i Benygroes.

Gwelir twf y pentref ar fap Arolwg Ordnans 1889, a digwyddodd hyn yn bennaf yn ystod y cyfnod ar ôl 1863 pan brynodd Darbishire Chwarel Penyrorsedd (ffigwr 6). Anheddiad llinol

oedd y pentref ar hyd y ffordd dyrpag. Ymddengys mai ar ben gorllewinol y pentref oedd y datblygiadau cynharaf, yn agos at dŷ bonedd o'r unfed ganrif ar bymtheg, Tŷ Mawr, sef adeilad hynaf y pentref sy'n dal i fodoli. Nid oes dim ar ôl ar y wyneb o lys brenhinol canoloesol a'i Faerdref gysylltiedig a safai yma yn y drydedd ganrif ar ddeg. Codwyd bloc o gytiau chwarelwyr yn y pentref, sef yr unig gytiau a adeiladwyd mewn pentref y gwyddys eu bod wedi goroesi. Roedd y barics yn lle i'r gweithwyr aros yn ystod yr wythnos, weithiau eu teuluoedd hefyd, cyn dychwelyd adref i fwrw'r Sul. Yn amlach na pheidio, fe'u lleolid yn y chwarel ei hun - adeiladwyd bloc o gytiau ar gyfer Cloddfa'r Lôn c. 1866 ger y chwarel ei hun, ac mae cytiau eraill wedi goroesi yn Chwarel Penyrorsedd.



*Ffigwr 6 map Arolwg Ordnans, 1889, yn dangos datblygiad pentref Nantlle*


Ymhellach tua'r dwyrain, adeiladwyd tai gan y teulu Darbishire ar gyfer gweithwyr Penyrorsedd; yn eu mysg saif Capel Baladeulyn, capel y Methodistiaid Calfinaidd y'i sefydlwyd ym 1865 (ffigwr 7). At ôl sefydlu Deddf Addysg Gynradd 1870, adeiladodd Bwrdd Ysgolion Llandwrog ysgol yn Nantlle ym 1873, a ddylunwyd gan ei gadeirydd W.C. Williams. Mae'n cynnwys ysgol ac ysgoldy, ond safai'r adeilad ar ei ben ei hun yn wreiddiol y tu hwnt i ben dwyreiniol y pentref.

Codwyd tai ar gyfer rheolwyr y chwareli hefyd. Adeiladwyd Plas Baladeulyn c.1863 yn dilyn caffaeliad Penyrorsedd gan y teulu Darbishire, ac adeiladwyd Bryn Deulyn ger adwy Dorothea beth amser ar ôl 1853. Roedd gerddi eang yn perthyn i Blas Baladeulyn yn ogystal â bloc o adeiladau allanol, a safai y tu hwnt i ymyl ddwyreiniol y pentref fel yr oedd bryd hynny.


Unig ddatblygiad arwyddocaol y 1890au oedd Tai Victoria, a adeiladwyd ym 1897 (ffigwr 8). Dyluniwyd y tai ar gyfer Penyrorsedd gan y Pensaer o Gaernarfon, Rowland Lloyd Jones, a fu'n ddiweddarach yn bensaer y sir i Sir Gaernarfon. Saif y ddwy res ar ben dwyreiniol y pentref ger yr ysgol ac ymhell oddi wrth y tai cynharach.

Ychydig iawn o ddatblygu pellach a fu ar ôl 1900. Adeiladwyd tai pâr ar gyfer staff rheoli gyferbyn â Thai Victoria. Datblygiadau bychain a fu yng nghanol yr ugeinfed ganrif, yn

bennaf Glan Rhonwy rhwng rhannau canolog a gorllewinol y pentref. Mae'r rhan o'r ffordd dyrpag rhwng Nantlle a Thalysarn wedi'i chymryd drosodd gan weithfeydd chwarelyddol a bellach dim ond swyddogaeth fel llwybr troed sydd ganddi. Gwyrwyd y ffordd tua'r de rhwng y ddau lyn, yna mae'n mynd yn ei blaen i gyfeiriad gorllewinol am Dalysarn ar ochr ddeheuol Afon Llyfni. Dim ond ychydig o adeiladau sydd wedi'u colli, ond maent yn cynnwys Capel Baladeulyn a ddymchwelwyd ym 1985. Ail godwyd cofeb rhyfel Penyrorsedd, a safai gynt yn y chwarel, yn iard flaen y capel.




*Ffigwr 7 Y ffordd drwy bentref Nantlle, â Chapel Baladeulyn ar y chwith. (Archifau Gwynedd XS/2115/86)*




*Ffigwr 8 Manylyn o fap Arolwg Ordnans 1900 yn dangos Tai Victoria ac Ysgol Baladeulyn.*

## 5 Cymeriad Adeiladau

*5.1 Arddull a manylion adeiladu*

Mae Nantlle a Chilgwyn yn enghreifftiau gwrthgyferbyniol o anheddiadau diwydiannol ac o arddulliau adeiladu gwrthgyferbyniol, er bod eu treftadaeth adeiladu yn lled gyfoes.

Yng Nghilgwyn, bythynnod unigol yw'r tai cyntaf, yn debyg i'r anheddau mwy di nod a geid yng nghefn gwlad Sir Gaernarfon. Tai unllawr ydynt wedi'u rhannu'n ddwy ystafell wedi'u gwresogi, gyda gofod cysgu yn y daflod, neu'r groglofft (ffigwr 9). Gwelir y cymeriad gwreiddiol ar ei orau yn y bythynod hynny a adawyd. Mewn dau ohonynt, Parc a Phen-hafod-las, mae'r adeiladau fferm cysylltiedig yn dal i fodoli (ffigwr 10). Daliwyd ati i adeiladu bythynnod unllawr tebyg yng nghanol-diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cysylltwyd nifer ohonynt i ffurfio parau neu resi o dri neu bedwar (ffigwr 11).



*Ffigwr 9 Samaria, Cilgwyn, adeiladwyd erbyn 1840. Ar y talcen pellaf mae ffenestr fechan a arferai oleuo'r groglofft.*

Adeiladwyd tai deulawr hefyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mewn parau neu mewn rhesi byrion (ffigwr 12). Dim ond ar un ochr y drws y mae ffenestri'r rhan fwyaf o'r tai hyn, dyluniad a ennillodd ei blwyf mewn anheddiadau diwydiannol eraill, megis Penygroes, yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ychydig o adeiladau allanol sydd yng Nghilgwyn, ond ceir tylciau moch a geudai.

Yn yr ugeinfed ganrif, addaswyd tai yn gynyddol. Rhoddwyd plastr garw ar rai o'r tai, ac yn ddiweddarach chwipiad neu rendrad sment. Cyflymodd newid yn rhan olaf y ganrif, bryd hynny gosodwyd drysau a ffenestri newydd o ddeunyddiau cyfoes, newidiwyd y toeon llechi ac ychwanegwyd estyniadau, yn aml ar draul y cymeriad hanesyddol.



*Ffigwr 10 Pen-hafod-las, Cilgwyn. Nid oes to ar y tŷ ond mae ganddo uned wresogi ychwanegol a grât fferm fel disgwylid mewn bwthyn o'r fath.*



*Ffigwr 11 Rhes o fythynod unllawr ym Mhen-ffynon-wen yng Nghilgwyn, a adeiladwyd yn y cyfnod 1840-1889. Cynhelir y llethr serth gan fur gynnal a saif y bythynnod fymryn oddi wrtho, trefniant anghyffredin a welir mewn llefydd eraill yng ngogledd Cymru. Noder fod y corn simdde wedi ei greu o gerrig mawrion, mwy na'r cerrig ar y talcen islaw.*



*Ffigwr 12 Tai deulawr yng Nghilgwyn*

Mae mwy o amrywiaeth yn nhai'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn Nantlle. Yn y Barics ceir rhes llety sy'n deillio o draddodiad cefn gwlad y bwthyn unllawr (ffigwr 13). Mae'r bloc llety yn wynebu beudy ac mae wedi'i amgáu ar y ddwy ochr arall, gan ymdebygu buarth fferm. Mae tai'r chwarelwyr yn fwy trefol eu naws. Fe'u hadeiladwyd mewn rhesi ac maent yn dai deulawr naill ai gyda ffenestri ar un ochr y drws blaen neu ar y ddwy. Tai Nantlle yw'r symlaf, dwy res o dai deulawr gyda ffenestri ar un ochr y drws yn bennaf. Mae'r rhesi a adeiladwyd gan Chwarel Penyrorsedd yn wahanol ac yn greadigaethau unigol. Aestheteg wledig sydd iddynt, o'r tu allan fel pe baent yn anelu at greu amgylchedd trefnus, gwaraidd o dai gweithwyr o'r ansawdd gorau (ffigwr 14). Mae naws mynegiant aestheteg debyg yn amlwg mewn datblygiadau eraill gan y teulu Darbishire, gan gynnwys pentref chwarelyddol Penmaenmawr, a ddatblygodd trwy gydol ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Saif bron bob tŷ yn Nantlle oddi ar y stryd y tu ôl i ardd flaen fechan.

Yng Nghilgwyn, perthyn y tai i un dosbarth cymdeithasol. Yn Nantlle, fodd bynnag, mae hierarchaeth gymdeithasol i'r stoc dai, sy'n adlewyrchu'r hierarchaeth yn y gweithle. Tai'r ddau reolwr, Bryn Deulyn a Phlas Baladeulyn, yw'r tai mwyaf yn y pentref ac mae iddynt dalcendoeon, sy'n eu gwahaniaethu oddi wrth dai'r chwarelwyr. Safant ar wahân i'r pentref, yn gymdeithasol yn ogystal ag yn ofodol, ac mae'r ddau a'u golygon oddi wrth y pentref a thuag at yr olygfa naturiol - Bryn Deulyn tuag at yr Wyddfa a Phlas Baladeulyn tuag at Lyn Nantlle Uchaf.



*Ffigwr 13 Barics, Nantlle, sy'n deillio o'r un traddodiad gwledig â'r pentrefi yng Nghilgwyn.*



*Ffigwr 14 Pen ochr dde Tai Penyrorsedd yn Nantlle.*

Ychydig iawn o adeiladau cyhoeddus sydd yn y ddwy anheddiad. Nid oes tafarn yn Nantlle nac yng Nghilgwyn, yn Nantlle o bosib o ganlyniad i reolaeth foesol ac economaidd teulu Darbishire dros y pentref. Mae ysgol yn Nantlle, ond saif ym mhen pellaf y pentref. Canolbwynt gweledol Nantlle yn flaenorol oedd y capel. Y capel yw'r unig adeilad cyhoeddus yng Nghilgwyn; adeilad di-nod ydyw a ailadeiladwyd ym 1877 gydag wyneb talcen iddo a ffenestri pengrwn sy'n nodweddiadol o'r cyfnod, ac yn ddigon i'w eithrio oddi wrth yr adeiladau domestig (ffigwr 15).




*Ffigwr 15 Capel yr Annibynwyr, Cilgwyn, ailadeiladwyd ym 1877. Mae ganddo wyneb talcennog a ffenestri pengrwn, sy'n nodweddiadol o gapeli'r anghydffurfwyr yn ail ran y bedwaredd ganrif ar bymtheg.*

*5.2 Deunyddiau adeiladu*

Mae deunyddiau adeiladu'n gwneud cyfraniad cryf i gymeriad y dreftadaeth adeiledig, ac fe'u defnyddir fel arwyddion cynil o statws adeiladau unigol. Mae defnydd o ddeunyddiau lleol yn ychwanegu at gymeriad rhanbarthol cryf yr anheddiadau.

Yng Nghilgwyn, adeiladwyd y bythynod, muriau'r caeau a'r adeiladau allanol yn bennaf o gerrig o'r caeau, h.y. rhai a ganfuwyd driphlith draphlith ar draws y waun (ffigwr 16). Mae carreg nadd afler weithiau'n cael ei defnyddio ar gyfer y conglfeini a chapan y drysau, ac mae capan pren uwchben prif le tân un o'r bythynnod. To llechi sydd i bob un o'r tai. Mae'r mwyafrif o'r bythynod sydd wedi goroesi wedi cael toeon newydd. Er mwyn gweld gorchuddion y toeon gwreiddiol, mae'r bythynod sydd wedi'u gadael ac sydd bellach yn segur yn rhoi mwy o wybodaeth. Toeon o lechi bychain, anghyson sydd wedi'u growtio, yn lle'u hailosod, sydd gan Fryn Tirion a Phen-hafod-las (ffigwr 17). Mae'n debyg mai llechi nad oedd modd eu gwerthu oherwydd eu hansawdd gwael oedd y rhain, arwydd pellach o sut adeiladwyd y bythynod cynharaf gyda deunyddiau a ganfuwyd.



*Ffigwr 16 Talcen bwthyn yng Nghilgwyn wedi'i adeiladu o gerrig maes o feintiau amrywiol, a chanddi gonglfeini mawr.*



*Ffigwr 17 Mae gan yr hen fwthyn ym Mryn Tirion yng Nghilgwyn do o lechi bychain, o ansawdd gwael ar y cyfan, sy'n cael eu cynnal gan growt.*



*Ffigwr 18 Mae Greenland, Cilgwyn, yn rhes o dri bwthyn unllawr a adeiladwyd rhwng 1840 a 1889 yn bennaf o dalpiau llechen o'r chwarel wedi'u gosod mewn haenau breision.*



*Ffigwr 19 Cyntedd storm o lechi ym Mhen-ffynon-wen, Cilgwyn*



*Ffigwr 20 Corn simdde llechi yng Nghilgwyn*



*Ffigwr 21 llechi a ddefnyddiwyd mewn cwt mochyn ym Mhen-ffynnon-wen, Cilgwyn.*

Defnyddiwyd llechi geirwon mewn crawennau tennau, a ddaeth o wastraff chwarelyddol, i adeiladu rhai o'r bythynnod diweddarach yng Nghilgwyn (ffigwr 18). Mae toeon llechi'r tai mwy diweddar hefyd o ansawdd gwell na'r bythynod cynharach sydd wedi goroesi. Defnyddiwyd talpiau teneuach hefyd mewn ffordd ddyfeisgar mewn amryw o gyd-destunau eraill: fel pileri clwydi, cladin i simneiau wedi'u clymu at ei gilydd gyda gwifren i greu cyrn

simdde, a chynteddau stormydd (ffigyrau 19, 20). Mae to o dalpiau llechi hirion ar do un o'r tylciau mochyn, a thalpiau tebyg ar eu fyny i ffurfio corlannau cysylltiol (ffigwr 21).

Yng Nghilgwyn adeiladwyd waliau o gerrig cae ac mae ganddynt bileri clwydi o lechen wedi'i llifio. Cynhelir llwybrau rhwng bythynnod ar brydiau gan furiau cerrig gwastraff, felly hefyd rheilffordd y chwarel at Fraich Rhydd.

Mae adeiladau yn Nantlle hefyd wedi'u hadeiladu o ddeunyddiau lleol. Defnyddir cerrig maes ar gyfer muriau terfyn ac ar gyfer tai cynnar, megis y Barics. Adeiladwyr y mwyafrif o'r tai, fodd bynnag, o dalpiau o lechi tennau wedi'u brasnaddu mewn rhesi breision, ac mae to llechi ar bob un o'r adeiladau (ffigwr 22). Defnyddiwyd llechi hefyd ar gyfer tai o statws uwch: adeiladwyd muriau Bryn Deulyn, fodd bynnag, o waith maen llanw yn hytrach na chyrsiau breision, ac mae pileri'r clwydi ger y fynedfa wedi'u creu o gerrig wedi'u trin. Mae gerddi a muriau eraill yn rhan bwysig o gymeriad y pentref, yn bennaf oherwydd y deunyddiau a ddefnyddiwyd. Mae'r rhain yn cynnwys pileri clwydi o dalpiau llechen wedi'i llifio, a rhaniadau rhwng y gerddi o linellau o gilbyst, fe'u gwelir yn glir yn Nhai Penyrorsedd. Mae'r ffensys llechi, neu'r *crawiau*, yn deillio o draddodiad cefn gwlad lleol - fe'u gwelir yn y caeau ger y pentref.

Tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, defnyddiwyd briciau'n gynyddol ar gyfer addurno ffenestri a chyrn simneiai. Cedwid cerrig wedi'u cloddio ar gyfer adeiladau o statws uwch. Adeiladwyd festri Capel Baladeulyn o waith maen llanw wedi'i gloddio a thywodfeini wedi'u trin (ffigwr 23).



*Ffigwr 22 Tai Penyrorsedd, Nantlle, gyda waliau llechi i'r gerddi a phileri clwydi o dalpiau wedi'u llifio. Noder fod y tai wedi'u cymalu â stribedi colofnig a llin-gwrs.*



*Ffigwr 23 Festri Capel Baladeulyn, a adeiladwyd o waith maen llanw gyda naddiad tywodfaen.*

Defnyddir bargodion llechi ar adeiladau statws uwch. Er defnyddiwyd cladin llechi'n wreiddiol er mwyn amddiffyn adeiladau rhag y tywydd, yn Nantlle fe'i defnyddid fel dyfais addurniadol ac i ddynodi statws. Mae'n cyfrannu llawer at gymeriad Bryn Deulyn, Plas Baladeulyn a'r tai pâr gyferbyn â Thai Victoria. Roedd bargodion llechi'n duedd pensaernïol a ddechreuodd mewn pensaernïaeth ystadau, ac felly'n cael ei arwain gan benseiri yn hytrach na'r traddodiad gwerinol.





*Ffigwr 24 Crawen fawr endoredig yw panel canolog cofeb rhyfel Penyrorsedd.*

Yn yr ugeinfed ganrif, daeth yn arfer rendro a chwipio waliau. Gellir gweld hyn yn nhai canol yr ugeinfed ganrif yn Nantlle. Fodd bynnag, ail-gydiwyd yn y traddodiad o adeiladu gyda llechi yn yr ugeinfed ganrif. Fe'u defnyddiwyd i adeiladu waliau'r gerddi ac ar gyfer yr arosfa fws yng nghanol pentref Nantlle. Mae ei bwysigrwydd symbolaidd ac economaidd i'r gymuned yn cael ei ymgorffori yng nghofeb ryfel Penyrorsedd, a addurnwyd gyda golygfeydd chwarelyddol (ffigwr 24). Mae'n hawdd rhoi arysgrif arno ac mae'n addas iawn ar gyfer arysgrifion cofiannol a cherfwedd, ac mae hon yn enghraifft goeth.

## 6 Ardaloedd Cymeriad

### *6.1 Tai Victoria*

Saif pen dwyreiniol y pentref ar wahân i'r prif anheddle (ffigwr 25). Dyma'r rhan olaf o'r pentref i gael ei ddatblygu, a dyma'r unig ran o'r pentref ble mae bric yn amlwg fel deunydd adeiladu, er mai dim ond ar gyfer addurniadau, conglfeini a chyrn simdde â manylion y'i defnyddiwyd.



*Ffigwr 25 Ardal Cymeriad Tai Victoria.*

Ysgol Baladeulyn yw'r adeilad cynharaf, Ysgol y Bwrdd o 1873, sy'n nodweddiadol o'r cyfnod sef ei fod yn adeilad unllawr uchel gyda ffenestri mawrion. Tai a adeiladwyd yn negawd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg a degawd gyntaf yr Ugeinfed ganrif gan Chwarel Penyrorsedd yw'r adeiladau eraill. Mae dwy res Tai Victoria yn dai chwarelwyr o ansawdd uwch, o safbwynt aestheteg ac ymarferol (ffigwr 26). Mae llechi crog ar dalcenni mewnol y rhesi, mae bargodion uwchlaw ffenestri lloriau uwch, a thoeon bychain uwchben y drysau blaen, nodwedd sy'n arwydd o dai chwarelwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Ngogledd Cymru. Pan y'u hadeiladwyd roedd gan y tai ddrysau wedi'u byrddio a ffenestri codi (roedd gan rif 1-9 ffenestri codi gyda phedair cwarel, a rhifau 10-18 gyda deuddeg

cwarel), mae'r mwyafrif bellach wedi'u newid. Ac eithrio'r newidiadau hyn, mae cymeriad unffurff y rhes wedi goroesi. Cedwir y cymeriad gwreiddiol y tu ôl i'r darn sy'n wynebu'r lôn. Mae gan y tai erddi cefn gyda wal derfyn garreg ac adeiladau tu allan, y tu hwnt i'r rhain ceir enghreifftiau ardderchog o grawiau sy'n gwella cymeriad yr ardal yn ei lleoliad gwledig.





*Ffigwr 26 Tai Victoria, Nantlle. Mae gan y teras naddiadau a chyrn o friciau, a bargodion ar ysgwyddau uwchben y drysau.*



*Ffigwr 27 Tai pâr gyferbyn a Thai Victoria, yn amlwg o statws cymdeithasol uwch na thai'r chwarelwyr. Ar y tai yma y ceir yr enghraifft amlycaf o lechi crog yn y pentref.*

Gyferbyn â Thai Victoria ceir dau bâr o dai pâr (ffigwr 27). Mae'r llechi crog arnynt yn arwydd o statws, ac fe'u gosodwyd uwchlaw lefel y ffordd a'r tai gyferbyn, gan fynegi gwahaniaeth hirerachaidd rhwng y dosbarth rheoli a'r gweithwyr.




*Ffigwr 28 Ardaloedd cymeriad yng nghanol pentref Nantlle.*

*6.2 Plas Baladeulyn*

Adeiladwyd Plas Baladeulyn ar gyfer rheolwr y chwarel ar ôl i chwarel Penyrorsedd gael ei chaffael gan deulu Darbishire ym 1863 (ffigwr 28). Mae felly'n elfen bwysig o hierarchaeth gymdeithasol y pentref, sy'n adlewyrchu hierarchaeth y gweithle. Dim ond ardrawiad gweledol bychan mae'n ei gael, fodd bynnag, gan ei fod wedi ei osod oddi ar y ffordd fawr yn ei dir ei hun y tu ôl wal garreg ac wedi'i amgylchynu gan goed. Mae amrediad eang o adeiladau tu allan a godwyd erbyn 1889 a osodwyd ymhellach oddi wrth y ffordd, ond maent wedi cael eu haddasu a'u hehangu, ar draul arwyddocaol y cymeriad hanesyddol (ffigwr 29).



*Ffigwr 29 Plas Baladeulyn, gyda Llyn Nantlle Uchaf yn y cefndir.*



*Ffigwr 30 Tai Baladeulyn, teras o dai pâr drych-gymesur o dan fargodion gydag estyll tywydd.*

*6.3 Canol pentref Nantlle*

Mae tair rhes yn y pentref - Tai Penyrorsedd, Tai Kinmel a Thai Baladeulyn - a safle Capel Baladeulyn. Fe'u hadeiladwyd oll ar gyfer Chwarel Penyrorsedd yn y cyfnod yn dilyn ei gaffaeliad gan Deulu Darbishire ym 1863 (ffigwr 28).

Mae'r tair rhes o dai teras i gyd yn wahanol. Yn Nhai Kinmel y mae'r tai mwyaf plaen, gyda'r bargodion uwchlaw'r ffenestri uchaf. Rhes o dai deulawr, gyda dwy ffenestr, a pharau ymwthiol ar bob pen yw Tai Penyrorsedd. Mae'r tu allan wedi'u cymalu gyda stribedi colofnig a lin-gwrs (gweler ffigwr 22). Yn wreiddiol, roedd i'r tai ffenestri croes â fframiau pren, sydd wedi goroesi ar rai tai, ond mae'r mwyafrif wedi eu newid bellach (gweler ffigwr 15). Tai Baladeulyn yw'r rhes fwyaf nodedig, hon sydd hefyd wedi cadw ei hundod gwreiddiol am nad oes cymaint o'r ffenestri a'r drysau wedi eu newid (ffigwr 3). Mae'r tai â dwy ffenestr wedi'u hadeiladu mewn parau drych-ddelwedd ac maent yn rhannu'r bargod uwchben y fynedfa. Mae'r bargodion wedi'u haddurno gydag estyll tywydd a therfyniadau crog, ac mae cwareli llorweddol i'r ffenestri adeiniog, sydd yn anghyffredin yn y rhanbarth.

Mae pob tŷ wedi ei osod oddi wrth y ffordd y tu ôl i waliau'r gerddi, y mae'r rhan fwyaf wedi'u hail-adeiladu neu eu rendro. Cynhelir undod gwreiddiol waliau'r gerddi yn Nhai Penyrorsedd, gyda'i llechi wedi'i llifio ar gyfer pileri'r clwydi a'r crawiau'n creu israniadau (gweler ffigwr 22).

Mae Capel Baladeulyn wedi'i ddymchwel ond mae ei festri Romanésg ddiweddar, a saif ymhell o'r lôn, yn dal i sefyll, er nad yw mor drawiadol yn weledol â'r capel (gweler ffigwr 23). Mae'r gofeb ryfel o lechen wedi'i hail-godi ym muarth blaen y capel ac mae'n enwog am ei cherfiadau o olygfeydd chwarelyddol, y'u priodolir i Mary Elizabeth Thompson, artist Saesneg oedd yn byw ym Methesda rhwng 1936 a 1954 (gweler ffigwr 24).

Mae tomeni chwarel yn mynd cyn belled â gerddi cefn Tai Kinmel, ac yma maent yn rhan o amgylchedd y pentref (ffigwr 31).



*Ffigwr 31 yr olygfa o domen y chwarel dros Dai Cinmel, Tai Baladeulyn a festri'r capel.*

*6.4 Glan Rhonwy a Glan Llyfnwy*

Tai cymdeithasol o'r ugeinfed ganrif yw Glan Rhonwy a Glan Llyfnwy a adeiladwyd yn y gofod rhwng rhannau o'r pentref oedd gynt ar wahân (ffigwr 28). O ran eu maint, mae'r adeiladau'n cymharu â thai pedwaredd ganrif ar bymtheg y pentref ac nid ydynt, o'r herwydd, yn difrïo cymeriad hanesyddol cyffredinol y pentref.

Ar hyd ochr ogleddol y brif ffordd y ceir tai'r ugeinfed ganrif, gyferbyn â Thai Penyrorsedd, ble ceir enghraifft dda o ddefnydd cyfoes o lechi. Talpiau o lechi tennau yw waliau'r gerddi, ond ceir pileri clwydi hŷn a ffens lechi yn eu mysg (ffigwr 32). Adeiladwyd yr arosfa fws fodern, ger y tro yn y ffordd, o lechi.



*Ffigwr 32 Ffens lechi yn cael ei defnyddio fel wal i ardd ar ochr ogleddol y ffordd trwy'r pentref.*

*6.5 Tai Nantlle, Barics a Tŷ Mawr (ffigwr 28)*

Yn ochr orllewinol y pentref ceir adeiladau o ddyddiadau amrywiol. Mae datblygiad ar ddwy ochr yr hen ffordd dyrpag sef rhan hynaf y pentref, ond mae'r patrwm adeiladu'n anffurfiol.

Adeiladwyd Tŷ Mawr ymhell oddi wrth yr hen ffordd dyrpag ac mae'n dŷ o'r unfed ganrif ar bymtheg mewn cyflwr da (ffigwr 33). Nepell o Tŷ Mawr y mae'r Barics, sydd wedi'u hatgyweirio, ynghyd â'r hen adeilad oedd yn gweinyddu Tŷ Mawr ac a saif drws nesaf iddo, ac a oedd yn ddiweddarach yn stablau. Mae cymeriad canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg i'r rhain. Ar ochr arall y ffordd saif Tai Nantlle (ffigwr 34). Adeiladwyd y bloc byrach mewn dau gymal, gydag uchder y crib yn amrywio rhyw gymaint, ac ymddengys bod y bloc hirach hefyd wedi'i adeiladu'n ddarniog, gyda gogwydd lled amrywiol. Bellach mae'r rhan fwyaf o'r tai wedi'u rendro a waliau'r gerddi wedi'u rendro'n debyg ac/neu wedi'u hailadeiladu. Mae'r drysau a'r ffenestri wedi'u newid. Erbyn 1889, roedd tomennydd chwarel yn mynd cyn belled â waliau cefn Tai Nantlle, ac maent yn elfen bwysig o osodiad y pentref.



*Ffigwr 33 Tŷ Mawr*




*Ffigwr 34 Tai Nantlle, teras a adeiladwyd mewn dwy gymal gyda chymysgedd o waliau gerddi wedi'u hail adeiladau a'u rendro.*

*6.6 Bryn Deulyn (ffigwr 28)*

Mae Bryn Deulyn a'i gerbyty yn cael ymdriniaeth fel ardal cymeriad ar wahân am fod y tŷ wedi'i adeiladu'n fwriadol oddi wrth dai'r chwarelwyr (ffigwr 35). Yn wreiddiol, edrycha'r tŷ ar draws y dirwedd tuag at y llyn a'r Wyddfa, er bod yr ymdeimlad hwn wedi cael ei ddifetha gan y ffordd newydd a'r tai newydd sy'n torri ar yr olygfa honno. Saif ger mynedfa Chwarel Dorothea drws nesaf at hen bont sydd â'i phentan yn unig wedi goroesi, ac mae ei lleoliad yn bendant yn chwarelyddol yn hytrach na phentrefol. Yn uniongyrchol y tu ôl i'r tŷ ceir tomennydd llechi, ac maent yn elfen bwysig o'i safle, yn arbennig gan fod y pentyrau blêr o lechi gwastraff yn gwrthgyferbynnu â'r defnydd coeth o ddeunyddiau ar yr adeilad.

Mae'r tŷ, o ddull Sioraidd cymesur, gyda feranda, gwaith maen llanw, a muriau â llechi crog, a'r talcendo, oll yn ei wahaniaethu'n bensaernïol, a thrwy hynny yn gymdeithasol, oddi wrth dai'r chwarelwyr. Mae bloc deulawr y cerbyty a'r tŷ golchi gyda'i stabl cysylltiedig yn cyd-fynd â'i statws.




*Ffigwr 35 Bryn Deulyn, gyda'r tomennydd gwastraff llechi y tu ôl iddo.*

*6.7 Cilgwyn*

Anheddiad ar dir uchel heb ei gynllunio a esblygodd yn reddfol fel clwstwr o fythynnod a thyddynnod a adeiladwyd gan weithwyr Chwarel Cilgwyn o chwarter olaf y ddeunawfed ganrif yw Cilgwyn (ffigwr 36). Maent ar wasgar ac felly nid ydynt yn meddu ar undod a chysondeb cymharol y pentrefi chwarelyddol fel Nantlle. Dyma sy'n bennaf gyfrifol am gymeriad arbennig Cilgwyn.

Mae Cilgwyn yn anheddiad cynharach na Nantlle ei hun, a datblygodd yn unol ag ehangiad chwarel Cilgwyn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r tai ar wasgar ar weundir goleddol ac maent yn nodweddiadol o dai unllawr sy'n deillio o'r traddodiad adeiladu gwledig, ac maent wedi'u hadeiladu ar wahan, mewn parau, neu resi byrion. Mae presenoldeb yr adeiladau tu allan, y beudai a thylciau'r moch, yn dwysáu'r cymeriad gwledig ac mae'n dystiolaeth werthfawr o'r modd yr ategai'r chwarelwyr eu hincwm trwy amaeth ymgynhaliol.




*Ffigwr 36 Ardal Cymeriad Cilgwyn*



*Ffigwr 37 Bythynnod ar wasgar yng Nghilgwyn, gyda gwastraff llechi yn y blaendir.*

Mae rhai o'r bythynnod yng Nghilgwyn wedi cael eu gadael ac maent wedi'u hadfeilio i wahanol raddfeydd; serch hynny, mae'r mwyafrif ohonynt yn cynnig tystiolaeth bwysig o'r modd y'u hadeiladwyd. Mae'r tai ble mae pobl yn dal i fyw, ar y cyfan, wedi'u cael eu diwygio trwy ddefnyddio rendr, newid y ffenestri a'r drysau, yn aml gyda deunyddiau

modern, ac estyniadau. Mae rhai o'r newidiadau hyn wedi bod yn anghydnaws â chymeriad gwreiddiol yr adeiladau.

Mae cymeriad arbennig yr anheddiad yn deillio cymaint o furiau'i chaeaeu ac o'i bythynnod, yn ogystal â'r rhwydwaith o lwybrau a esblygodd wrth i'r anheddiad ddatblygu (ffigwr 38, 39, 40). Amgylchynir rhan uchaf, ogleddol y pentref gan weundir, ac ar yr ochr de-ddwyrain, gwastraff llechi sy'n teyrnasu ble mae wedi dynesu at rai o'r anheddiadau cynharaf. Mae Cilgwyn felly wedi cadw cryn dipyn o'i dirlun diwydiannol, tir uchel gwreiddiol.



*Ffigwr 38 Tirwedd Cilgwyn, gyda'i fythynnod gwasgaredig a waliau'r caeau, a'r gweundir yn y pellter.*



*Ffigwr 39 Llwybr bras nodweddiadol rhwng caeau yng Nghilgwyn.*

## 7 Datganiad Arwyddocâd

Mae Nantlle a Chilgwyn yn anheddiadau diwydiannol gwrthgyferbyniol mewn sawl ffordd. Saif y ddau, fodd bynnag, mewn tirwedd ddiwydiannol o chwareli llechi a thirweddau naturiol o lynnoedd, gweundiroedd a mynyddoedd. Mae gosodiad y pentrefi, felly, yn nodedig ddiwydiannol a Chymreig.

Pentref a gynlluniwyd ac a adeiladwyd rhwng canol a diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw Nantlle ac mae nifer o'i adeiladau wedi'u dylunio gan benseiri sy'n dangos sut oedd dylanwad y perchenogion cyfalafol yn ymestyn o'r gweithle i'r cartref. Mae'n cynnwys rhai o'r tai gweithwyr o'r safon uchaf o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, mewn pentref ble ceir tai dosbarth canol hefyd, a phle ymgorfforir hierarchaeth y gweithle yn adeiladau'r pentref.

Mae cymeriad arbennig Cilgwyn a Nantlle'n deillio o'r defnydd o ddeunyddiau lleol, yn benodol cerrig maes ar gyfer yr adeiladau cynharaf a darnau o lechi breision wedi'u llifio ar gyfer yr adeiladau diweddarach. Defnyddir llechi mewn ffyrdd nodedig, er enghraifft ar gyfer pileri clwydi a cherrig pen mur. Dodir crawiau breision ar i fyny mewn rhesi i greu 'ffensys llechi' i ffurfio ffiniau gerddi, arferiad sy'n tarddu o ddefnydd cefn gwlad ac fe'i gwelir o hyd yn y ffensys crawiau sy'n dynodi terfynnau'r caeau ar gyrion Nantlle. Mae'n enghraifft o'r parhâd rhwng y traddodiadau cefn gwlad a'r rhai diwydiannol.

Yn wahanol i Nantlle, adeiladwyd Cilgwyn i raddau helaeth gan ei drigolion. Mae mentergarwch greddfol y chwarelwyr unigol yng Nghilgwyn yn cynrychioli anian fentrus ac annibynnol lleol, sy'n agwedd bwysig o hanes cymdeithasol y chwareli llechi. Datblygodd o ddiwedd y ddeunawfed ganrif ar ffurf bythynnod a thyddynnod ar dir comin, y mae'r ymdeimlad ohono wedi parhau'n dda hyd heddiw. Adeiladwyd yr adeiladau a muriau'r caeau'n bennaf o gerrig cae. Mae'n amlwg yn bentref dosbarth gweithiol ble nad yw hierarchaeth gymdeithasol arwyddocaol wedi'i ymgorffori yn ei dreftadaeth adeiledig. Bythynnod unllawr yw adeiladau Cilgwyn yn bennaf, y mae gan rai ohonynt adeiladau fferm cysylltiedig sy'n enghraifft arall o'r parhâd rhwng y traddodiadau cefn gwlad a'r rhai diwydiannol.

Gyda'i gilydd, mae Nantlle a Chilgwyn yn gofnod o ddatblygiad tai diwydiannol trwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, o fythynnod unigol y traddodiad gwledig i'r rhesi o dai wedi'u dylunio ac a ysbrydolwyd gan y trefol ac y mae elfen o aestheteg yn perthyn iddynt. Mae'n hefyd yn gofnod o'r gagendor yn safon tai diwydiannol, pan ystyrir fod tai deulawr Tai Baladeulyn wedi'u hadeiladu ar yr un adeg â bythynnod unllawr Greenland yng Nghilgwyn.

## 8 Argymelliadau


Mae Nantlle'n bentref diwydiannol mewn cyflwr da ac iddo hanes unigryw a chymeriad rhanbarthol cryf. Mae rhai o'i adeiladau eisoes yn rhestredig, yn benodol y Barics, Tŷ Mawr, a Bryn Deulyn (gweler Atodiad 1), ond mae lle i ddynodi ymhellach ar ffurf Ardaloedd Cadwraeth er mwyn gwarchod cymeriad hanesyddol y pentref. Mae tair ardal unigol yn Nantlle wedi'u hadnabod.

Dwy res yw Tai Nantlle sy'n wynebu'r hen ffordd dyrpag, y saif hen Felin Nantlle yn ei chanol, ac mae'r tai wedi'u gosod oddi ar y ffordd yn wynebu llwybr byr o dan y tomennydd gwastraff (ffigwr 40). Serch bod ynysu muriau allanol modern wedi newid cymeriad y rhes, mae dal yn rhan bwysig o ddatblygiad hanesyddol y pentref, mae'n gwella gosodiad yr

adeiladau rhestredig cyfagos, ac mae'n gwrthgyferbynnu â'r terasau yng nghanol y pentref sydd wedi'u dylunio.



*Ffigwr 40 Ffin arfaethedig Ardal Gadwraeth Tai Nantlle.*




*Ffigwr 41 Ffin arfaethedig Ardal Gadwraeth canol pentref Nantlle.*


Mae'r ardal arfaethedig yng nghanol y pentref yn cynnwys Tai Kinmel, Tai Penyrorsedd, Tai Baladeulyn, a'r capel (ffigwr 41). Mae'r tai ym Mhlas Baladeulyn eisoes wedi'u gwarchod gan statws adeilad rhestredig, ond mae gan yr adeiladau o'i amgylch werth ynddynt ei hunain ac maent yn cyfrannu at osodiad yr adeiladau rhestredig. Mae Plas Baladeulyn yn

rhoi cyferbyniad cymdeithasol i stoc dai'r pentref. Fodd bynnag, mae pethau wedi'u colli. Mae'r capel, sef canolbwynt blaenorol y pentref, wedi'i ddymchwel. Mae'r adeiladau tu allan sy'n perthyn i Blas Baladeulyn wedi'u cael eu diwygio, er nad oes raid iddynt gael eu cynnwys yn yr ardal ddynodedig. Rhennir y cyfrifoldeb am guradu'r ardal arfaethedig hon rhwng Parc Cenedlaethol Eryri ar ochr ddeheuol y ffordd, a Chyngor Gwynedd ar ochr ogleddol y ffordd.

Mae Ardal Gadwraeth arfaethedig Tai Victoria'n cydfynd â'r ardal cymeriad a ddisgrifir yn adran 6.1 (ffigwr 42). Saif yn gyfan gwbl ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Mae'r ardal hon hefyd yn cynnwys ffensys crawiau yn y caeau cysylltiol i'r de ddwyrain, sy'n enghraifft o'u math mewn cyflwr da ac maent yn gwneud cyfraniad pwysig i osodiad gwledig y rhan neilltuedig hon o'r pentref (ffigwr 43).

Mae peth ardrawiad negyddol wedi bod ar gydlyniad hanesyddol treftadaeth adeiledig Nantlle y gallai statws dynodiad Ardal Cadwraeth ddechrau mynd i'r afael ag o. Mae rhai o'r tai wedi cael eu rendro, fel nodwyd uchod yn achos Tai Nantlle. Mae ffenestri a drysau wedi cael eu newid, yn aml gan ddefnyddio deunyddiau cyfoes anghydnaws, er bod modd dad-wneud y newidiadau hyn. Mae adeiladu yn yr ugeinfed ganrif wedi bod yn eithaf prin, ac nid yw wedi cael fawr ddim effaith ar rannau hanesyddol y pentref.


Er gwaethaf y materion hyn, mae Nantlle'n ardal tra diffiniedig o ddiddordeb hanesyddol pensaernïol arbennig sy'n deilwng o gadwraeth a gwelliant, a byddai rhannau dethol o'r pentref, felly, yn gymwys am statws Ardal Cadwraeth.



*Ffigwr 42 Ardal Gadwraeth Arfaethedig Tai Victoria.*



*Ffigwr 43* Mae Crawiau i'r de ddwyrain o Dai Victoria'n gwneud cyfraniad cryf i osodiad gwledig y tai ac i Ysgol Baladeulyn.




*Ffigwr 44 Ffin Ardal Gadwraeth Arfaethedig Cilgwyn.*

Yng Nghilgwyn, mae'r rhan fwyaf o'r tai ble mae pobl yn dal i fyw wedi'u newid yn sylweddol, gydag eraill wedi'u gadael ac wedi adfeilio. Trwy rinwedd cael eu gadael, fodd bynnag, maent yn cadw manylion gwreiddiol gwerthfawr sydd wedi'u colli o bron bob un o'r bythynnod o ddyddiad tebyg sydd wedi goroesi (gweler ffigwr 19, 20, 21). Canlyniad arall ymadawiadau yn yr ugeinfed ganrif yw bod bron ddim adeiladau newydd yn yr

anheddle, a chafwyd yr ardrawiad fwyaf negyddol yn sgil y domen ysbwriel sydd bellach ynghau. Mae patrwm hanesyddol yr anheddle, gyda'i chorlannau â'i muriau bychain a'i llwybrau breision, mewn cyflwr eithriadol o dda. Mae Cilgwyn felly'n deilwng o gadwraeth ac fe'i hargymellir ar gyfer statws Ardal Gadwraeth.

Yn y tymor hir, mae'r tai a adawyd a'r strwythurau cysylltiedig yn debyg o ddirywio gyda'r tywydd a bydd dirywiad araf yn y gwead hanesyddol. Argymhellir, felly, bod rhaglen o gofnodi adeiladau'n digwydd, a fyddai'n gyfle prin i ddysgu mwy am ddosbarth o adeiladau sydd fel arfer wedi'u haddasu'n sylweddol os oes pobl yn dal i fyw ynddynt. Cofnodi cynlluniau, drychiadau a manylion ddylai'r nod fod.

## 9 Cyfeiriadau

*Ffynonellau cartograffeg*

Arolwg Degwm Llandwrog, 1840.
Arolwg Degwm Llanllyfni, 1839.
Mapiau cyfres sirol Arolwg Ordnans, 1889, 1900, 1914.

*Ffynonellau argraffedig*

Davidson, A., Jones, G., a Gwyn, D., 1994, *Gwynedd Quarrying Landscapes: Slate Quarries. Adroddiad Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd 129.*

Gwyn, David, 2001, 'Resistance to Enclosure: the Moel Tryfan Commons', Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon 62, 81-97.

Gwyn, David, 2006, Gwynedd: Inheriting a Revolution. Chichester: Phillimore.

Gwyn, David, 2015, *Welsh Slate: Archaeology and History of an Industry.* Aberystwyth: RCAHM Wales.

Haslam, Richard, Orbach, Julian and Voelcker, Adam, 2009, The Buildings of Wales: Gwynedd . Llundain: Yale University Press.

Johnstone, N., 1995, *Llys and Maerdref: an investigation into the location of the royal courts of the Princes of Gwynedd.* Adroddiad 167 Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd.

Lindsay, Jean, 1974, *A History of the North Wales Slate Industry.* Newton Abbot: David and Charles.

Richards, Alun John, 2007, *Gazeteer of Slate Quarrying in Wales.* Pwllheli: Llygad Gwalch.


*Ffynonellau Ar-lein*

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, Cymeriad Tirwedd Hanesyddol - ar-lein yn http://www.heneb.co.uk/hlc/caernarfon-nantlle.html

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, ar-lein yn http://www.cofiadurcahcymru.org.uk/

Cofnod Henebion Cenedlaethol, RCAHM Cymru ar-lein yn http://coflein.gov.uk/

**Atodiad 1: adeiladau rhestredig yn Nantlle a Chilgwyn**



*Ffigwr 45 Adeiladau rhestredig yn Nantlle.*



*Ffigwr 46 Adeilad rhestredig yng Nghilgwyn*

| | Cyfeirnod yr adeilad rhestredig | Gradd |
|---|---|---|
| Parc, Cilgwyn | 22897 | II |
| Bryn Deulyn | 23679 | II |
| Cerbyty, tŷ golchi a stablau ym Mryn Deulyn | 23680 | II |
| Amrywiaeth o adeiladau yn hen farics y chwarelwyr i'r GO o Dŷ Mawr | 23748 | II |
| Hen farics y chwarelwyr i'r GO o Dŷ Mawr (rhes y Dwyrain) | 23683 | II |
| Hen Hufenfa i'r GO o Dŷ Mawr | 23682 | II |
| Tŷ Mawr | 22899 | II* |
| 5 Tai Baladeulyn | 23752 | II |
| 4 Tai Baladeulyn | 23751 | II |
| 3 Tai Baladeulyn | 23750 | II |
| 2 Tai Baladeulyn | 23749 | II |
| 1 Tai Baladeulyn | 23684 | II |
| Carreg Filltir | 23685 | II |